

LIC – Rhif 20-30

DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Cartrefi Gofal COVID-19) (Gwasanaethau Ychwanegol o dan Gyfarwyddyd) (Cymru) 2020

Gwnaed

29 Mehefin 2020

Yn dod i rym

01 Gorffennaf 2020

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 12(3), 45 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1), ac ar ôl ymgynghori yn unol ag adran 45(4) o'r Ddeddf honno â'r cyrff yr ymddangosai iddynt hwy eu bod yn cynrychioli'r personau y mae'r Cyfarwyddydau hyn yn ymwneud â'u tâl, yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Cartrefi Gofal COVID-19) (Gwasanaethau Ychwanegol o dan Gyfarwyddyd) (Cymru) 2020.

(2) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 01 Gorffennaf 2020 a deuant i ben ar 31 Mawrth 2021.

(3) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i Fyrddau Iechyd Lleol.

Dehongli

2. Yn y Cyfarwyddydau hyn—

mae i “adolygiad o feddyginiaethau wrth ryddhau” yr ystyr a roddir i “discharge medicines review” yng nghyfarwyddyd 5 o Gyfarwyddydau

Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Uwch ac Ychwanegol) (Cymru) 2005, neu adolygiad cyfatebol a gynhelir gan contractwr GMC;

ystyr “amlgyffuriaeth” (“*polypharmacy*”) yw rhagnodi dwy neu ragor o feddyginiaethau yn amhriodol, neu pan na fo budd bwriadedig y feddyginiaeth yn cael ei gyflawni;

ystyr “ardal practis” (“*practice area*”) yw’r ardal y cyfeirir ati yn rheoliad 18(1)(d) o Reoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004(1);

ystyr “blwyddyn ariannol” (“*financial year*”) yw blwyddyn sy’n dod i ben ar 31 Mawrth;

ystyr “Bwrdd Iechyd Lleol” (“*Local Health Board*”) yw Bwrdd Iechyd Lleol sydd wedi ei sefydlu yn unol ag adran 11(2) o Ddeddf 2006;

ystyr “cartref gofal” (“*care home*”) yw man yng Nghymru y darperir llety, ynghyd â nyrsio neu ofal, ynddo i bersonau oherwydd eu hyglwyfedd neu eu hangen ond nid yw’n cynnwys man a grybwyllir ym mharagraff 1(2) o Atodlen 1 i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(2);

mae i “claf cofrestredig” yr ystyr a roddir i “registered patient” yn rheoliad 2(1) o Reoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004;

ystyr “clwstwr” (“*cluster*”) yw grŵp o ddarparwyr gwasanaethau lleol sy’n ymwneud ag iechyd a gofal ac sydd wedi cytuno i gydweithredu i gyflenwi gwasanaethau meddygol sylfaenol ar draws ardal ddaearyddol benodedig;

ystyr “contract gwasanaethau meddygol cyffredinol” (“*general medical services contract*”) yw contract ar gyfer gwasanaethau meddygol cyffredinol rhwng contractwr GMC a Bwrdd Iechyd Lleol a wneir yn unol ag adran 42 o Ddeddf 2006;

ystyr “contractwr GMC” (“*GMS contractor*”) yw person y mae Bwrdd Iechyd Lleol yn ymrwymo neu wedi ymrwymo i gontract gwasanaethau meddygol cyffredinol ag ef;

ystyr “contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen” (“*engaged GMS contractor*”) yw contractwr GMC sy’n cytuno â Bwrdd Iechyd

(1) O.S. 2004/478 (Cy. 48).

(2) 2016 dccc 2. Mae paragraff 1(2) o Atodlen 1 i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn rhagnodi mannau nad ydynt yn gyfystyr â gwasanaethau cartrefi gofal, mae’r mannau hynny wedi eu heithrio o’r diffiniad o gartrefi gofal at ddibenion y Cyfarwyddydau hyn.

Lleol i ddarparu'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd yn unol â chytundeb a wneir yn unol â pharagraff 4(1);

ystyr “cylch ward” (“*ward round*”) yw cyfarfod lle y mae'r contractwr GMC a staff perthnasol y cartref gofal yn asesu'r mewnbwn clinigol gofynnol ar gyfer pob claf cofrestredig sy'n preswyllo mewn cartref gofal er mwyn hwyluso rheoli iechyd a gofal preswylwyr cartrefi gofal mewn ffordd gynhwysfawr;

ystyr “Datganiad ar Hawlogaethau Ariannol” (“*Statement of Financial Entitlements*”) yw unrhyw gyfarwyddydau a roddir gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 45 o Ddeddf 2006 mewn perthynas â thaliadau sydd i'w gwneud gan Fwrdd Iechyd Lleol i gontractwr GMC;

ystyr “Deddf 2006” (“*2006 Act*”) yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr “Manyleb Cynllun Cartrefi Gofal COVID-19” (“*COVID-19 Care Homes Scheme Specification*”) yw Manyleb Gwasanaeth Ychwanegol o dan Gyfarwyddyd y Cynllun Cartrefi Gofal COVID-19 yn yr Atodlen i'r Cyfarwyddydau hyn;

ystyr “nyrs” (“*nurse*”) yw nyrs sydd wedi ei chofrestru yn y gofrestr o nyrsys a sefydlwyd o dan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001(1);

ystyr “practis arweiniol clwstwr” (“*cluster lead practice*”) yw contractwr GMC sydd wedi cytuno i ddarparu'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd i'w gleifion cofrestredig sy'n preswyllo mewn cartref gofal o fewn ardal ei bractis, ac i'r cleifion cofrestredig sy'n preswyllo mewn cartref gofal yn ardal practis contractwr GMC yn ei glwstwr nad yw'n gontractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen, ac y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn cytuno y bydd yn bractis arweiniol clwstwr;

ystyr “proffesiynolyn gofal iechyd” (“*health care professional*”) yw person sy'n aelod o broffesiwn a reoleiddir gan gorff a grybwyllir yn adran 25(3) o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002(2); ac

ystyr “ymarferydd cyffredinol” (“*general practitioner*”) yw ymarferydd meddygol y mae ei enw wedi ei gynnwys mewn rhestr cyflawnwyr meddygol a lunnir gan Fwrdd Iechyd Lleol o dan reoliad 3 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) 2004(3).

(1) O.S. 2002/253.

(2) 2002 p. 17.

(3) O.S. 2004/1020 (Cy. 117).

Sefydlu Cynllun Cartrefi Gofal COVID-19

3.—(1) Mae'n ofynnol i bob Bwrdd Iechyd Lleol o dan adran 41 o Ddeddf 2006 (gwasanaethau meddygol sylfaenol) arfer ei swyddogaethau er mwyn darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol yn ei ardal, neu sicrhau bod gwasanaethau meddygol sylfaenol yn cael eu darparu yn ei ardal.

(2) Fel rhan o'i waith o gyflawni'r swyddogaethau hynny, rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol sefydlu (os nad yw eisoes wedi gwneud hynny), gweithredu ac, fel y bo'n briodol, ddiwygio Cynllun Cartrefi Gofal COVID-19 ar gyfer ei ardal yn ystod y pandemig COVID-19.

(3) Diben sylfaenol y Cynllun Cartrefi Gofal COVID-19 yw—

- (a) sicrhau'r mynediad gorau posibl i ofal meddygol sylfaenol ar gyfer cleifion cofrestredig sy'n preswyllo mewn cartrefi gofal;
- (b) galluogi staff cartrefi gofal i gael mynediad brys i gyngor gofal meddygol sylfaenol;
- (c) sicrhau bod contractwyr GMC yn defnyddio dull rhagataliol, rhagweithiol a rhagflaenorol o ofalu am gleifion cofrestredig sy'n preswyllo mewn cartref gofal; a
- (d) hybu dull cyson o safon uchel ar draws Byrddau Iechyd Lleol gyda'r hyblygrwydd i'w ddefnyddio gan glystyrau neu gontractwyr GMC unigol.

Cynllun Cartrefi Gofal COVID-19

4.—(1) Fel rhan o'i Gynllun Cartrefi Gofal COVID-19, rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol gynnig ymrwymo i drefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau yn unol â Manyleb y Cynllun Cartrefi Gofal COVID-19 â'r canlynol—

- (a) pob contractwr GMC, mewn perthynas â'r cleifion cofrestredig sy'n preswyllo mewn cartrefi gofal o fewn ardal practis y contractwr GMC hwnnw; ac yna
- (b) un neu ragor o bractisau arweiniol clwstwr, mewn perthynas â'r cleifion cofrestredig sy'n preswyllo mewn cartrefi gofal o fewn ardal practis arweiniol y clwstwr ac ardal practis y contractwyr GMC hynny, os oes rhai, yn ei glwstwr nad ydynt wedi cytuno, o fewn unrhyw gyfnod sy'n ofynnol gan y Bwrdd Iechyd Lleol, i gyflenwi'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd i'w cleifion cofrestredig sy'n preswyllo mewn cartrefi gofal o fewn ardal eu practis yn unol â pharagraff 4(1)(a) uchod.

(2) Pan na fydd preswylwyr cartref gofal o fewn ardal practis contractwr GMC yn cael y gwasanaethau a amlinellir yn y Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd, naill ai gan gontractwr GMC, neu gan bractis arweiniol clwstwr, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol wneud trefniadau i sicrhau bod triniaeth yn cael ei darparu i'r preswylwyr hynny mewn cartrefi gofal a chaiff y Bwrdd Iechyd Lleol gyflenwi'r gwasanaethau o dan y Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd i'r preswylwyr hynny mewn unrhyw ffordd y mae'n credu ei bod yn briodol (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, drwy ddarparu'r gwasanaethau ei hunan neu drefnu i unrhyw gontractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen gyflenwi'r gwasanaethau hynny).

(3) Pan fo trefniadau yn cael eu gwneud rhwng practis arweiniol clwstwr a Bwrdd Iechyd Lleol yn unol â pharagraff (1)(b), rhaid i bob contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen gydweithredu⁽¹⁾ â'r contractwyr GMC eraill sydd wedi eu cymryd ymlaen a phractis arweiniol y clwstwr yn ei glwstwr er mwyn i bractis arweiniol y clwstwr gwblhau, erbyn unrhyw ddyddiad sy'n ofynnol gan y Bwrdd Iechyd Lleol, blun sy'n nodi'r trefniant ar gyfer cyflenwi'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd i breswylwyr cartrefi gofal o fewn ardaloedd practisau'r contractwyr GMC sydd wedi eu cymryd ymlaen ar draws y clwstwr. Pan fo dim ond un contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen, sef practis arweiniol y clwstwr, ef fydd yn gyfrifol am gwblhau'r plan hwnnw. Pan na fo unrhyw bractis arweiniol clwstwr, a bo pob un o'r contractwyr GMC yn y clwstwr yn gontractwyr GMC sydd wedi eu cymryd ymlaen, hwy i gyd fydd yn gyfrifol am gwblhau'r plan hwnnw.

(4) Pan fo trefniadau yn cael eu gwneud rhwng y Bwrdd Iechyd Lleol a chontractwr GMC yn unol â pharagraff (1), rhaid i'r trefniadau hynny, mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol (neu ran o flwyddyn ariannol) y maent yn ymwneud â hi, gynnwys—

- (a) gofyniad bod y contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen—
 - (i) yn sefydlu cylch ward wythnosol, i'w gynnal yn bersonol ym mangre'r cartref gofal neu o bell drwy dechnoleg glyweledol, ar gyfer pob cartref gofal yn ardal ei bractis,
 - (ii) yn arwain tîm aml-ddisgyblaethol gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i fferyllwyr clinigol, dietegwyr,

(1) Gweler paragraff 12 o Ran 1 o Atodlen 6 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004 (O.S. 2004/478 Cy. 48).

optometryddion, ffisiotherapyddion, ciropodyddion a phodiatryddion, er mwyn rheoli iechyd a gofal y cleifion cofrestredig hynny sy'n preswyllo mewn cartrefi gofal mewn ffordd gynhwysfawr a sicrhau bod asesiadau clinigol priodol yn cael eu cynnal fel y bo'n ofynnol, a

- (iii) yn cydweithredu â phractis arweiniol y clwstwr a phob contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen yn ei glwstwr (pan fo'n gymwys), a staff cartrefi gofal, i gyfyngu ar nifer y clinigwyr a'r staff cymunedol sy'n ymweld â chartrefi gofal o fewn ardaloedd eu practisau yn ystod y pandemig COVID-19.
- (b) gofyniad bod y contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen—
 - (i) yn cwblhau adolygiad cychwynnol cynhwysfawr o iechyd meddwl ac iechyd corfforol, yn bersonol ym mangre'r cartref gofal neu o bell drwy dechnoleg glyweledol, o fewn 28 o ddiwrnodau i berson symud i mewn i gartref gofal neu i berson gael ei dderbyn i gartref gofal,
 - (ii) yn sicrhau bod yr adolygiad cychwynnol yn cynnwys adolygiad o feddyginiaethau wrth ryddhau, a chanddo'r diben o wirio'r meddyginiaethau a ragnodir yn dilyn rhyddhau o'r ysbyty ac ymdrin â materion amlgyffuriaeth, rhagnodi gwrthseicotigau a meddyginiaethau risg uchel eraill,
 - (iii) yn sicrhau bod yr adolygiad cychwynnol yn cynnwys y meysydd a amlinellir yn y ffurflen yn Atodiad B o Fanyleb y Cynllun Cartrefi Gofal COVID-19,
 - (iv) yn sicrhau bod canfyddiadau'r adolygiad cychwynnol yn cael eu cofnodi ar y ffurflen yn Atodiad B o Fanyleb y Cynllun Cartrefi Gofal COVID-19,
 - (v) yn diweddar'u'r cofnod o feddyginiaethau rhagnodedig a gynhelir gan y contractwr GMC,
 - (vi) yn sicrhau bod y cartref gofal yn cadw'r ffurflen Atodiad B sydd wedi ei chwblhau, a
 - (vii) yn argymhell unrhyw atgyfeiriad priodol fel y bo'n angenrheidiol.
- (c) gofyniad bod y contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen yn darparu ymgynghoriadau clinigol strwythuredig i breswylwyr cartrefi gofal, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i—

- (i) cynnal ymgynghoriadau yn bersonol ym mangre'r cartref gofal, neu o bell drwy dechnoleg glyweledol (os gofynnir am hynny gan y cartref gofal at ddibenion rheoli haint), ar gyfer y cleifion cofrestredig hynny yr asesir bod angen mewnbwn clinigol arnynt yn ystod y cylch ward wythnosol, a
 - (ii) y cynnig o asesiad wyneb yn wyneb ym mangre'r cartref gofal, pan fo'r contractwr GMC yn credu na fu modd diwallu anghenion iechyd a gofal claf yn dilyn ymgynghoriad o bell.
- (d) gofyniad bod y contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen yn hwyluso darparu cyngor clinigol brys i staff cartrefi gofal sy'n darparu gofal i breswylwyr cartrefi gofal, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i—
- (i) darparu rhif ffôn neilltuedig sydd ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8:00 a 18:30 er mwyn sicrhau bod ceisiadau am gyngor oddi wrth gartrefi gofal yn cael eu blaenoriaethu fel y bo'n briodol yn glinigol,
 - (ii) ymrwymiad y bydd galwad i'r rhif ffôn neilltuedig a frysennir yn alwad frys yn glinigol ac sy'n golygu bod angen i glinigydd a chanddo'r cymwysterau priodol alw'n ôl yn cael ei dychwelyd o fewn 15 munud i'r contractwr GMC gael yr alwad gan y cartref gofal, i'r graddau y bo'n rhesymol bosibl,
 - (iii) hysbysu pob cartref gofal o fewn ardal ei bractis am y rhif ffôn neilltuedig, a
 - (iv) hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol am y rhif ffôn neilltuedig at ddibenion archwilio;
- (e) gofyniad bod y contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen, fel y clinigydd arweiniol yn y tîm amlddisgyblaethol—
- (i) yn comisiynu o leiaf un adolygiad strwythuredig o feddyginiaethau bob blwyddyn ar gyfer pob claf cofrestredig sy'n preswyllo mewn cartref gofal, i'w gynnal gan y contractwr GMC gyda chymorth unrhyw broffesiynolion gofal iechyd eraill fel y bo'n briodol ar gyfer pob preswlydd cartref gofal,
 - (ii) yn penderfynu sawl adolygiad pellach o feddyginiaethau y mae rhaid ei gynnal yn yr un flwyddyn â'r adolygiad a gynhelir yn unol ag is-baragraff (i), ar gyfer pob claf cofrestredig sy'n preswyllo mewn cartref gofal, fel y bo'n briodol yn

glinigol, gan gyfeirio'n benodol at amlgyffuriaeth, rhagnodi gwrthfeiotigau a meddyginiaethau risg uchel eraill, a

- (iii) pan fo fferylllydd wedi cynnal adolygiad o feddyginiaethau i helpu'r contractwr GMC gan gyfeirio'n benodol at amlgyffuriaeth, rhagnodi gwrthfeiotigau a meddyginiaethau risg uchel eraill, sydd i'w cofnodi yn nodiadau'r claf cofrestredig, rhaid i'r contractwr GMC ystyried hyn mewn unrhyw adolygiad clinigol;
- (f) gofyniad y bydd y contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen, pan fo'n briodol, yn cymryd rhan mewn adolygiad o farwolaeth ac yn ei gefnogi drwy gynnal dadansoddiad digwyddiad arwyddocaol o farwolaeth unrhyw breswlydd cartref gofal pan fo COVID-19 wedi ei gynnwys fel achos marwolaeth ar dystysgrif farwolaeth, gan gynnwys pan fo preswylwyr yn cael eu derbyn i'r ysbyty ac yn marw o fewn 7 diwrnod i'w derbyn;
- (g) gofyniad bod y contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen—
 - (i) yn sicrhau bod gan bob proffesiynolyn gofal iechyd sy'n ymgymryd â'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd y sgiliau, yr hyfforddiant, y cymhwysedd a'r profiad angenrheidiol er mwyn darparu'r gwasanaethau, a
 - (ii) yn sicrhau bod pob proffesiynolyn gofal iechyd sy'n ymgymryd â'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd wedi ei indemnio / ei yswirio'n ddigonol am unrhyw atebolrwydd sy'n codi o'r gwaith sy'n cael ei wneud;
- (h) gofyniad bod y contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen—
 - (i) yn darllen ac yn ystyried y Cyfarwyddydau hyn ac yn ymrwymo i gydymffurfio â Manyleb y Cynllun Cartrefi Gofal COVID-19 a'i hatodiadau sydd ar y cyd yn rhagnodi'r gofynion ar gyfer y Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd;
 - (ii) yn cynnal ac yn cadw'n gyfredol gofrestr o gleifion cofrestredig sy'n cael triniaeth yn unol â'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd;
 - (iii) yn darparu'r gwasanaeth a amlinellir ym Manyleb y Cynllun Cartrefi Gofal COVID-19 a, phan fo'n gymwys, yn unol â'r plan sy'n ofynnol gan baragraff (3);

- (iv) yn darparu data, yn ddarostyngedig i baragraff (v), i bractis arweiniol clwstwr (pan fo'n gymwys), Byrddau Iechyd Lleol a Llywodraeth Cymru pan fydd yn ofynnol er mwyn llywio'r gwaith o ddylunio a datblygu'r Cynllun Cartrefi Gofal COVID-19;
- (v) yn sicrhau codio cyson ar gyfer cipio data a chydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol ynghylch llywodraethu gwybodaeth;
- (vi) yn cyflenwi i'w Fwrdd Iechyd Lleol unrhyw wybodaeth y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gofyn yn rhesymol amdani at ddibenion monitro sut y mae'r contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen yn cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd, a pherfformiad y clwstwr mewn perthynas â'r plan a bennir ym mharagraff (3) uchod;
- (i) trefniadau ar gyfer monitro darpariaeth gofal o dan y Cynllun Cartrefi Gofal COVID-19, gan gynnwys dyddiad ar gyfer adolygu'r cynllun;
- (j) trefniadau talu am contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen, y mae rhaid iddynt ddarparu i'r contractwr GMC hwnnw sydd wedi ei gymryd ymlaen allu hawlio (pa un a yw'n gweithredu ar ei liwt ei hun yn unig neu fel practis arweiniol clwstwr)—
 - (i) uchafswm taliad o £270 am bob claf cofrestredig am bob blwyddyn ariannol y mae claf yn preswyllo mewn cartref gofal;
 - (ii) pan fo claf cofrestredig sy'n preswyllo mewn cartref gofal yn marw yn ystod blwyddyn ariannol, yr uchafswm taliad o £270 am y flwyddyn honno, ar yr amod y cwblheir yr adolygiad cychwynnol yn unol â pharagraff (4)(b);
 - (iii) pan fo claf cofrestredig yn preswyllo mewn cartref gofal am hyd at 6 mis o'r flwyddyn ariannol berthnasol, 50% (£135) o'r uchafswm taliad;
 - (iv) pan fo claf cofrestredig yn preswyllo mewn cartref gofal am hyd at 9 mis o'r flwyddyn ariannol berthnasol, 75% (£202.50) o'r uchafswm taliad; a
 - (v) pan fo claf cofrestredig yn preswyllo mewn cartref gofal am dros 9 mis o'r flwyddyn ariannol berthnasol, 100% o'r uchafswm taliad.
- (k) gofyniad na chaiff contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen hawlio ond hyd at yr

uchafswm taliad o £270 am bob claf cofrestredig mewn unrhyw flwyddyn ariannol, ac y gall fod angen ymgymryd â chyfnod o gysoni ariannol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol;

- (l) gofyniad y bydd taliadau yn ôl-daladwy naill ai bob mis neu bob chwarter ac y byddant yn daladwy ar y dyddiad cyntaf ar ôl i'r taliad gael ei awdurdodi y mae un o daliadau misol Swm Craidd y contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen yn dod yn ddyledus yn unol â'r Datganiad ar Hawlogaethau Ariannol;
- (m) gofyniad bod rhaid i hawliad am daliad ddod gyda rhestr o gleifion cofrestredig sy'n preswyllo mewn cartrefi gofal o fewn ardal ei bractis ar y diwrnod olaf y mae'r hawliad yn ymwneud ag ef; ac
- (n) gofyniad na fydd y contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen yn cael tâl cadw oddi wrth gartref gofal os yw'n penderfynu cymryd rhan yn y Cynllun Cartrefi Gofal COVID-19. Bydd cwblhau a llofnodi ffurflen ddatgan y practis ym Manyleb y Cynllun Cartrefi Gofal COVID-19 yn cadarnhau cytundeb y contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen â'r gofyniad hwn.

(5) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol, pan fo'n angenrheidiol, amrywio contract gwasanaethau meddygol cyffredinol y contractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen fel bod trefniadau a wneir yn unol â pharagraff (1) yn rhan o gontract y contractwr GMC a bod gofynion y trefniadau yn amodau o'r contract.

(6) Ymdrinnir ag unrhyw anghydfodau sy'n codi o ganlyniad i ddarparu'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd yn unol â Rhan 7 o Atodlen 6 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004.

(7) Pan fo'r Bwrdd Iechyd Lleol yn cyflenwi'r Gwasanaeth Ychwanegol hwn o dan Gyfarwyddyd yn unol â threfniant yn unol â pharagraff 4(2), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol sicrhau bod paragraffau 4(4) a 4(5) yn gymwys i'r trefniadau hynny fel y byddent yn gymwys i gontractwr GMC sydd wedi ei gymryd ymlaen.

Diwygio Cyfarwyddydau Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch y Datganiad ar Hawlogaethau Ariannol (Atal Gwasanaethau Ychwanegol Dros Dro Oherwydd COVID-19) 2020

5.—(1) Mae Cyfarwyddydau Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch y Datganiad ar Hawlogaethau Ariannol (Atal Gwasanaethau

Ychwanegol Dros Dro Oherwydd COVID-19) 2020(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn y tabl yn yr Atodlen—

- (a) yng ngholofn 1 *Directed Enhanced Services* hepgorer “Care Homes”; a
- (b) yng ngholofn 2 *Action*, yn y lle cyntaf y mae’n digwydd, hepgorer y cofnod—
- (c) “Suspend administrative component, but routine healthcare will be required and potentially enhanced, subject to consideration of introduction of following modifications;
- (d) Do Not Attempt Cardiopulmonary Resuscitation (DNACPR) and Treatment Escalation Plan (TEP) assessments;
- (e) Contact homes to enquire whether require specific review post discharge;
- (f) Reduce all non-essential visits.”.

Dirymu Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Cartrefi Gofal) (Gwasanaethau Ychwanegol o dan Gyfarwyddyd) (Cymru) 2017

6. Mae Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Cartrefi Gofal) (Gwasanaethau Ychwanegol o dan Gyfarwyddyd) (Cymru) 2017(2) wedi eu dirymu.



Llofnodwyd gan Alex Slade, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Gofal Sylfaenol o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig: 29 Mehefin 2020

(1) LIC – Rhif LIC20-14.
(2) 2017 Rhif 9.

YR ATODLEN

**Manyleb Gwasanaeth Ychwanegol o
dan Gyfarwyddyd y Cynllun Cartrefi
Gofal COVID-19**